**EUR(2) 01-03(p11)w**

# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol: 26 Mehefin 2003

**Cysylltiadau rhwng y Cynulliad a sefydliadau rhanbarthol**

Mae'r brîff hwn yn rhoi ychydig o wybodaeth gefndir am y sefydliadau rhanbarthol y mae'r Cynulliad yn aelod ohonynt. Mae'r brîff yn rhoi amlinelliad o rôl a nodau pob un o'r sefydliadau, ynghyd â golwg ar berthynas y Cynulliad gyda'r sefydliadau hynny a chynrychiolwyr y Cynulliad arnynt.

## 1. CYNHADLEDD LLYWYDDION SENEDDAU DEDDFWRIAETHOL RHANBARTHOL EWROP (CALRE)

Sefydlwyd CALRE ym 1997. Mae'n dwyn ynghyd 'gadeiryddion' seneddau ffederal gwladol deddfwriaethol Ewrop - sef arweinwyr seneddol sector neu ranbarth, nid y senedd genedlaethol. Dim ond y rhanbarthau hynny sydd o fewn aelod-wladwriaethau yr Undeb Ewropeaidd all fod yn rhan o CALRE, ac mae'r graddau y gwnaethpwyd hynny yn amrywio'n sylweddol yn ôl maint y rhanbarthiaeth ym mhob gwladwriaeth.

Nodau CALRE yw:

- Rhwystro diffyg democrataidd o safbwynt y rhanbarthau;
- Rhoi hwb i'r broses o drefnu rheolaeth seneddol ar Faterion Ewropeaidd;
- Rhoi llais i seneddau rhanbarthol Ewropeaidd yn Ewrop; a
- Bod yn fforwm i rannu gwybodaeth rhwng aelodau CALRE a rhwng seneddau cenedlaethol a'r Senedd Ewropeaidd[1].

Ar hyn o bryd mae CALRE yn cynnwys:

- Seneddau cymunedau hunan-ymreolus Sbaen;
- Cynghorau rhanbarthol yr Eidal;
- Cynulliadau rhanbarthau a chymunedau Gwlad Belg;
- Seneddau Länder yr Almaen ac Awstria;
- Senedd hunan-ymreolus Åland (y Ffindir);
- Cynulliadau rhanbarthol yr Asores a Madeira (Portiwgal); a
- Sefydliadau datganoledig Cymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon (y Deyrnas Unedig).

Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yw cadeirydd Cymru ar CALRE.

[1] Gwefan CALRE:
http://www.calre.be

Ar hyn o bryd mae CALRE yn edrych ar waith y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Nid yw cael cynrychiolaeth ar y Confensiwn yn ran o'i gylch gwaith ac nid ydyw'n un o arsylwyr swyddogol y broses. Serch hynny, mae'n awyddus i fabwysiadu agwedd gytûn ar ddatblygiad yr Undeb Ewropeaidd (EU). Mae'n bwysig cofio nad yw'r gwledydd sy'n ceisio ymuno â'r UE ar hyn o bryd yn cael eu cynrychioli yn CALRE.

## 2. Y PEDWAR RHANBARTH SBARDUN

Y Pedwar Rhanbarth Sbardun yw:

- Baden-Württemberg, Yr Almaen;
- Catalonia, Sbaen;
- Lombary, yr Eidal;
- Rhône-Alpes, Ffrainc.

Mae'r pedwar rhanbarth sbardun yn cyfrannu llawer mwy at arloesi na rhanbarthau eraill yn Ewrop, ac yn gyffredinol fe'u hystyrir ar flaen y gad o ran datblygu ymchwil a thechnoleg yn yr UE. Hwy eu hunain sy'n eu galw yn rhanbarthau "sbardun".

Mae'n bwysig cofio nad yw Cymru yn 'bumed aelod' answyddogol o'r rhanbarthau sbardun, fel yr awgrymwyd yn aml[2]. Serch hynny, mae gan Gymru berthynas â'r pedwar rhanbarth.

Mae cysylltiad Cymru â'r Pedwar Rhanbarth Sbardun yn dyddio yn ôl i'r 1990au cynnar. Yn ogystal â datblygu perthynas gyfartal gyda'r rhanbarthau ( arwyddodd y Swyddfa Gymreig Femoranda Dealltwriaeth gyda Chatalonia a Baden-Württemberg yn 1991, ac adnewyddwyd yr un cyntaf yn ddiweddar), mae'r Swyddfa Gymreig, ac yna'r Cynulliad, wedi cymryd rhan yn nifer o Bwyllgorau'r Rhanbarthau Sbardun[3]. Ers datganoli mae Cymru wedi bod yn aelod o Grŵp Datblygu Economaidd y Pedwar Rhanbarth Sbardun, sef fforwm cyfnewid rhwng y rhanbarthau sy'n llwyddiannus yn economaidd. Y mae hefyd yn cymryd rhan yn rhai fforymau eraill y Rhanbarthau Sbardun, sef y Pwyllgor Addysg Uwch ac Ymchwil (CHER) a'r Grŵp Gwaith Rhyng-rhanbarthol ar Warchod Natur.

Nodwyd bod cael cysylltiad â'r Pedwar Rhanbarth Sbardun yn rhoi cyfle i drosglwyddo technoleg ac mae hyn yn creu'r potensial i drosglwyddo mwy o raglenni a pholisïau[4].

---

[2] Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2003
[3] Dreiling, G. (2001: 25), *Wales' European Policy: Policy Learning or Merely Yearning?*Prifysgol Cymru, Caerdydd
[4] Lang, M. (2001: 63), 'Relations with the European Union', pp.61-64, in *A Period of De-Stabilisation: Monitoring the National Assembly May to August 2001.* Caerdydd: Cyhoeddiad IWA.

Nodir yn y tabl isod gysylltiad Cymru â'r Pedwar Rhanbarth Sbardun

| | |
|---|---|
| Baden-Württemberg | Arwyddwyd Memorandwm Dealltwriaeth (MD) ym mis Mawrth 1990. Gwnaeth y Memorandwm Dealltwriaeth nodi'r meysydd canlynol fel meysydd y gellir cydweithio arnynt " cydweithredu economaidd, trosglwyddo technoleg, hybu dyluniad, ymchwil, addysg a hyfforddiant datblygedig, cyfleoedd cyfnewid i bobl ifanc, datblygu trefol, gwella'r amgylchedd a diwylliant". Cytunodd y MD y byddai cyd-weithgor yn gyfrifol am gydlynu gweithgareddau cyfartal. Mewn gwirionedd, ychydig iawn a gyflawnwyd. Serch hynny, mae'r Llywydd Weinidog Erwin Teufel o Baden-Württemberg wedi derbyn mewn egwyddor wahoddiad i ymweld â Chymru yn ddiweddarach eleni. |
| Catalonia | Arwyddwyd Cyd Ddatganiad rhwng Cymru a Chatalonia ym mis Hydref 1991, ac ail-gadarnhawyd y datganiad ym mis Ebrill 2001 gyda Phrotocol Cydweithio a arwyddwyd gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywydd Llywodraeth Catalonia. Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n bosibl i'r ddau ranbarth gydweithio yn y dyfodol mewn perthynas â'r agenda cynhwysiant, ac yn enwedig y polisïau sy'n ymwneud â phobl hŷn, ieuenctid a'r teulu. |
| Lombardy | Mae'r Cyd-ddatganiad yn dyddio yn ôl i 1994 a chytunwyd ar gydweithredu ar draws ystod eang o weithgareddau. Mewn gwirionedd tawel iawn fu'r berthynas yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| Rhône-Alpes | Ni chafwyd unrhyw gytundeb ffurfiol rhwng Cymru â'r Rhône-Alpes. |

## 3. CYNGRES AWDURDODAU LLEOL A RHANBARTHOL EWROP (CLRAE)

Crewyd Cyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE) gan Gyngor Ewrop yn 1994. Mae'n gorff ymgynghorol, sy'n disodli Cynhadledd Sefydlog yr Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol er mwyn cynrychioli awdurdodau lleol a rhanbarthol ar y Cyngor.

Prif nod CLRAE yw cynnal a hyrwyddo annibyniaeth wleidyddol, gweinyddol ac ariannol yr awdurdodau lleol a rhanbarthol Ewropeaidd. Y mae hefyd yn gyfrifol am fonitro hynt y Siartr Ewropeaidd ar Hunan-Lywodraeth leol ym mhob un o'r Aelod-Wladwriaethau.

Rôl CLRAE yw:

- Darparu fforwm lle gall cynrychiolwyr lleol a rhanbarthol a etholwyd yn uniongyrchol drafod eu problemau, cyfrannu profiad a chyflwyno'u safbwyntiau i'r llywodraeth;
- Cynghori Pwyllgor y Gweinidogion a'r Cynulliad Seneddol ar Gyngor Ewrop ar bob agwedd o bolisi lleol a rhanbarthol;
- Cydweithio â sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cynrychioli llywodraeth leol a rhanbarthol;
- Trefnu gwrandawiadau a chynadleddau er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl er mwyn sicrhau democratiaeth gynhwysol;

- Paratoi adroddiadau gwlad-wrth-wlad ar gyflwr democratiaeth lleol a rhanbarthol ym mhob un o'r Aelod-Wladwriaethau a'r Gwladwriaethau sy'n Ymgeisio, yn enwedig ar sut y caiff egwyddorion y Siartr Ewropeaidd ar Hunan Lywodraeth eu harddel[5].

Rhannwyd y Gyngres yn ddwy siambr, Siambr yr Awdurdodau Lleol a Siambr y Rhanbarthau. Mae yna gyfanswm o 313 o aelodau (a'r un nifer o eilyddion) sy'n cwrdd unwaith y flwyddyn. Trefnwyd gwaith y Gyngres yn bedwar pwyllgor statudol, sy'n delio â materion sefydliadol, diwylliant ac addysg, datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae gan y Deyrnas Unedig (DU) 18 cynrychiolydd ar hyd dwy Siambr CLRAE. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sedd yn Siambr y Rhanbarthau. Gwenda Thomas AC a arferai gynrychioli'r Cynulliad yn y Siambr honno, ond ar hyn o bryd mae'r sedd yn wag.

## 4. CYNHADLEDD RHANBARTHAU ARFOROL YMYLOL (CPMR)

Ffurfiwyd y CPMR yn 1973 gan tua 30 o ranbarthau arforol ymylol a fu'n pryderu y byddent yn fwy ynysig oddi wrth y pŵer canolog yn sgìl twf yr UE. Bellach mae'n cynnwys 150 o ranbarthau, o 27 gwlad o fewn yr UE a thu hwnt.

Mae gan y CPMR dair nod cyffredinol: manteisio ar asedau yr aelod-wladwriaethau (y môr a'r arfordir), codi ymwybyddiaeth am anghyfartaledd rhwng y rhanbarthau a chystadleuaeth bosibl yn y DU, a sicrhau bod mwy yn cymryd rhan mewn integreiddio Ewropeaidd ar lefel ranbarthol. Mae'n meithrin cydweithredu rhwng y rhanbarthau Ewropeaidd (a adnabyddir fel cydweithredu rhwng y rhanbarthau) a rhanbarthau o ranbarthau y tu allan i wladwriaethau yr UE (cydweithredu allanol). Mae'n hyrwyddo model datblygu cynaliadwy a dimensiwn arforol Ewrop drwy amryw bolisïau sectoraidd yr UE (megis Cronfeydd Strwythurol)[6].

Yr aelodau sy'n ariannu'r CPMR, gan felly sicrhau ei annibyniaeth.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn aelod o CPMR ers mis Gorffennaf 2001. Yng ngweinyddiaeth 1999-2003, enwebwyd Prif Weinidog y dydd yn llefarydd ar bolisi datblygu rhanbarthol yr UE gan y CPMR . Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o brosiect INTERREG IIIB[7]sy'n cynnwys y CPMR a rhanbarthau eraill o Gomisiwn Bwa'r Iwerydd[8]ac mae wedi cytuno i gydlynu ar lefel swyddogol gwaith grŵp astudio o fewn Bwa'r Iwerydd i ystyried anghenion o ran ymchwil a datblygu ei aelod-wladwriaethau.

---

[5] Gwefan CALRE:
http://www.coe.int/T/E/Clrae/
[6] Mae rhaglen waith y CPMR ar gyfer 2002-03 ar gael oddi wrth:
http://www.cpmr.org/Documents/BP/CRPM_Prog_travail_2002_2003_GB.pdf
[7] Mae INTERREG IIIB yn rhan o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'n hyrwyddo datblygu cytbwys ar hyd casgliadau mawr o ranbarthau Ewropeaidd.
[8] Mae Comisiwn Bwa'r Iwerydd yn un o bump Comisiwn a sefydlwyd gan y CPMR. Mae'n cynnwys rhanbarthau ymylol gorllewinol Ewrop a'i fwriad yw tynnu ynghyd grŵp o ranbarthau sydd â phryderon tebyg o ran rhanbarthau ymylol a diddordebau penodol ym maes trafnidiaeth.

## 5. CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD

Mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yn elusen, a gofrestrwyd o dan gyfreithiau'r Deyrnas Unedig, sydd â'r bwriad o "hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r systemau deddfwriaethol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o fewn fframwaith democrataidd seneddol"[9]. CPA yw'r unig ddull ymgynghori rheolaidd ymysg Aelodau Seneddau'r Gymanwlad.

Mae'r CPA yn cynnwys Canghennau annibynnol, pob un o dan reolaeth pwyllgor gweithredol, a ffurfiwyd drwy gyrff deddfu yng ngwledydd y Gymanwlad sy'n tanysgrifio i ddemocratiaeth seneddol. Caiff ei ariannu'n bennaf drwy'r tanysgrifiadau blynyddol a delir gan yr aelodau

Cynhelir cynadleddau llawn y CPA ym mhob gwlad yn eu tro. Y tro diwethaf y cynhaliwyd y gynhadledd yn y Deyrnas Unedig (DU) oedd yn y flwyddyn 2000.

Dywedir bod aelodaeth o'r CPA yn rhoi cyfle i gymryd ran mewn cynadleddau llawn a rhanbarthol, seminarau, ymweliadau a chyfnewid dirprwyon. Mae ysgrifenyddiaeth y CPA yn rhoi gwybodaeth reolaidd i'r aelodau am faterion sefydliadol ac am y Gymanwlad.

## 6. CORFF RHYNGSENEDDOL PRYDAIN

Sefydlwyd Corff Rhyngseneddol Prydain (y Corff) yn 1990 ar gais Aelodau'r Oireachtas yn Nulyn a'r Senedd yn San Steffan.

Yn wreiddiol yr oedd gan y corff 25 aelod o bob Senedd (ynghyd ag 20 Aelod Cysylltiol). Serch hynny, yn 2001, estynnwyd yr Aelodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban (mae gan bob un ohonynt bum aelod), yn ogystal â Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw (gall bob un o'r rhain enwebu un aelod)[10].

Mae pedwar pwyllgor yn gwneud gwaith y Corff:

- Pwyllgor A - y Pwyllgor ar Faterion y Goron
- Pwyllgor B - y Pwyllgor Materion Ewropeaidd;
- Pwyllgor C - y Pwyllgor Economaidd;
- Pwyllgor D - y Pwyllgor Amgylcheddol a Chymdeithasol.

Mae gwaith y Corff yn canolbwyntio ar weithgareddau'r senedd nad ydynt yn rhai deddfwriaethol. Mae'r pedwar pwyllgor yn cwrdd yn rheolaidd i dderbyn tystiolaeth ac ysgrifennu adroddiadau, a chynnal perthynas dda gyda'r Senedd Ewropeaidd. Cynhelir dau gyfarfod Llawn mewn blwyddyn.

---

[9] Gwefan Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yw: http://www.cpahq.org
[10] Gwefan Corff RhyngSeneddol Prydain yw: http://www.biipb.org

Yn 1999-2003 yr oedd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru bum aelod a dau aelod cysylltiol a chaniateir yr un nifer iddo ar gyfer sesiwn 2003-2007.

## 7. RHANBARTHAU SYDD Â PHWERAU DEDDFWRIAETHOL

Yn yr Undeb Ewropeaidd mae 72 rhanbarth sydd â phwerau deddfwriaethol. Mae'r rhain yn cynrychioli ryw 56% o boblogaeth yr UE[11]. Mae pob aelod o'r Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol yn wlad neu'n rhanbarth sy'n arfer ychydig o ymreolaeth ddemocrataidd o fewn ei aelod-wladwriaeth ac sy'n rheoli rhai agweddau ar ddeddfwriaeth.

Mae'r Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol yn cynnwys rhanbarthau ymreolus bach tebyg i Ynysoedd Aland yn y Ffindir neu'r Asores ym Mhortiwgal, a rhanbarthau mawr o'r Almaen, Gwlad Belg, Sbaen, Awstria, yr Eidal a'r DU.

Ymunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol (RLP) ym mis Rhagfyr 2001 a dros y ddwy flynedd diwethaf mae Prif Weinidog Cymru wedi bod yn mynychu'r cynadleddau. Cynhelir y gynhadledd nesaf ym mis Tachwedd 2003 a disgwylir i'r Prif Weinidog presennol fod yn bresennol. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynrychiolaeth ar y grŵp llywio ar lefel swyddogol.

[11] Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2003